



Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru (Cadeirydd: Zoe Henderson)

Dydd Mercher 23 Hydref

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

1) Croeso ac Ymddiheuriadau (Cadeirydd)

Ymddiheuriadau:

Nododd y Cadeirydd yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law gan:

Rachel Lewis-Davies, NFU
Mathew Lowe, CNC
Stephen Marsh-Smith
Kirsten Hughes, Hybu Cig Cymru
James Ruggeri, Hybu Cig Cymru
Sarah Hetherington, CNC

Yn bresennol:

Zoe Henderson, CNC
Marc Williams, CNC
Nichola Salter, CNC
Bob Vaughan, CNC
Geri Mills, CNC
Aled Jones, FUW
Ceri Davies, FUW
Lorna Davies, NFU
Denis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Kate Snow, United Utilities
David Jones, Dŵr Cymru
Andrew Chambers, LIC
Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin
Betsan Jones, LIC
Keith Owen, Kebek
Sara Jenkins, Menter a Busnes
Lee Jones, Menter a Busnes
Sophie, Dŵr Cymru trwy Skype
Spencer Conlon, LIC

Meinir Wigley, CNC trwy Skype eitem 4 yn unig
Contractwyr Amaethyddol, eitem 6 a 7
Jill Hewitt, Eitem 7 yn unig

Datganiad o Fuddiant

Ni fynegwyd unrhyw fuddiant o ran yr eitemau ar yr Agenda a oedd i'w hystyried.

2) Cofnodion y cyfarfod ar 23 Medi, a phwyntiau gweithredu heb eu cymryd

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Adolygiad o'r Cofnod Gweithredu:

Mai PG2: Kate Snow i rannu gwybodaeth â Kevin Thomas, Lantra

Mai PG6: Diweddariad gan Sara Jenkins i gadarnhau bod yr hyfforddiant peilot i fod i gael ei gynnal ganol mis Tachwedd yng Ngelli Aur.

Awst PG6: Y Cadeirydd/Geri Mills i adolygu llythyr drafft ynghylch adolygiad cynllunio.

Bob Vaughan/Geri Mills i adolygu'r camau gweithredu heb eu cymryd, a rhoi diweddariad arnynt cyn y cyfarfod nesaf.

3) Diweddariad ar y Rheoliadau Amaethyddol – llinellau amser a'r camau nesaf

Rhoddodd Andrew Chambers y diweddariad canlynol:

Trafodaeth ar y cyfnod pontio/Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ar y pryd, roedd y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS) yn adolygu'r ymatebion a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad i'r RIA drafft, gydag ymateb yn ddyledus i LIC cyn diwedd y mis. Cadarnhaodd LIC y bwriad i gynnal cyfarfod o'r Is-Grŵp Rheoleiddio ddechrau mis Tachwedd i drafod datblygu canllawiau a chyfathrebu arfaethedig mewn perthynas â'r Rheoliadau newydd arfaethedig a'r cyfnodau pontio.

Pwynt Gweithredu Hydref 01: Andrew Chambers i gylchredeg dyddiadau arfaethedig cyn diwedd yr wythnos ar gyfer cyfarfod o'r Is-Grŵp Rheoleiddio.

Gofynnodd y Grŵp am eglurhad ar y pwyntiau canlynol:

- Byddai'r Rheoliadau arfaethedig, a oedd i'w gweithredu ym mis Ionawr 2020, yn effeithio ar y Cod Ymarfer Amaethyddol Da (CoGAP), a byddai angen arweiniad pellach ar y diwydiant – cadarnhaodd LIC y byddai hyn yn cael ei ddiwygio dros amser, ac y byddai atodiad yn cael ei greu i'r CoGAP.
- Byddai'r holl wybodaeth a ddarperid gan y rhanddeiliaid yn cael ei hadolygu gan y Gweinidog cyn ei phenderfyniad terfynol.
- Byddai asesiad effaith rheoleiddiol yn cael ei gwblhau i'r Gweinidog ei ystyried cyn ei phenderfyniad, a ddisgwyliid ddiwedd mis Tachwedd 2019.
- Gofynnodd Sara Jenkins am rybudd cynnar o'r penderfyniad er mwyn galluogi Menter a Busnes i drefnu dyddiadau i gyfarfod â ffermwyr, a hefyd i ganiatáu i staff rheng flaen gael hyfforddiant ar y Rheoliadau diwygiedig.

Nododd y Grŵp ei bod yn ofynnol i ffermwyr gael seilwaith digonol ar waith i fodloni

gofyniad y ddeddfwriaeth newydd, a bod angen i gyfnodau pontio ac eithriadau gael eu hegluro'n glir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau.

Cyfnodau gwaharddedig y Parthau Perygl Nitradau (NVZ):

Yn dilyn cyfnod diweddar o dywydd gwlyb, roedd ffermwyr wedi bod yn wynebu ac yn adrodd am anawsterau o ran gwasgaru slyri cyn cyfnod gwahardd yr NVZ. Cadarnhaodd LIC ei bod yn gweithio gydag CNC i sicrhau bod ymateb priodol yn cael ei roi i'r ffermwyr hynny a oedd yn nodi pryderon. Cadarnhaodd CNC fod yr achosion yn cael eu hadolygu fesul un, yn dibynnu ar lefel y risg a nodwyd mewn perthynas â digwyddiad llygredd posibl, a bod ymatebion yn cael eu llunio ar unwaith.

Er bod disgwyl i ffermwyr allu gwasgaru slyri o fewn y cyfnodau caeedig, nododd y Grŵp y gall hyn fod yn anodd os yw'r tywydd wedi bod yn sych a thri i bedwar toriad o silwair wedi cael eu gwneud.

Cadarnhaodd LIC ei bod yn parhau i drafod y mater o gyfnodau gwaharddedig â'r Gweinidog.

Trafododd y grŵp y posibilrwydd o symud y slyri oddi ar y ffermydd hynny sydd wedi cyrraedd eu capasiti o ran ei storio ond sy'n methu ei wasgaru oherwydd y tywydd a'r cyfnodau gwaharddedig. Gall hyn gymryd amser a gall fod yn gostus. Hefyd, pe byddai penderfyniad y Gweinidogion yn effeithio ar Gymru gyfan, nodwyd na fydd hyn yn opsiwn yn y dyfodol.

Daeth y Grŵp i'r casgliad y byddai ffermwyr yn elwa ar hyfforddiant ychwanegol a chymorth gan y Prosiect Dyddiadur a Cyswllt Ffermio er mwyn rhoi atebion ar waith yn y tymor hwy.

4) Cynllun Cyfathrebu yr Is-grŵp (Meinir Wigley trwy Skype)

Ymunodd Meinir Wigley â'r grŵp i adolygu Cynllun Cyfathrebu'r Is-grŵp, gan dynnu sylw at y ffaith bod y cynllun yn ddwy oed. Gofynnodd Meinir am eglurhad mewn perthynas â pherthnasedd cyfredol yr amcanion a'r negeseuon, a nododd fod yna angen i'r grŵp ystyried perchnogaeth y cynllun.

Daeth y Grŵp i'r casgliadau canlynol:

- ei bod yn ofynnol diweddarau'r cynllun i adlewyrchu newidiadau Rheoleiddiol, ynghyd â chynnwys gwybodaeth gan bob rhanddeiliad
- ei bod yn ofynnol adolygu amcanion yr Ymgyrch
- ei bod yn ofynnol casglu tystiolaeth ôl-ddyddiedig i amlygu'r datblygiadau ers ffurfio'r Grŵp, gan greu llinell sylfaen o dystiolaeth gan holl aelodau'r grŵp
- y byddai sesiwn gweithdy arall yn cael ei chynnal yng nghyfarfod mis Tachwedd yr Is-grŵp, dan arweiniad Meinir Wigley.

Pwynt Gweithredu Hydref 02: Meinir Wigley i ddrafftio rhestr o gwestiynau i'r Grŵp eu hystyried cyn y Sesiwn Gweithdy, a fyddai'n cael ei chynnal ar 13 Tachwedd. Yr Ysgrifenyddiaeth i'w roi'n eitem ar yr Agenda ar gyfer mis Tachwedd.

6) Rôl y Contractwr Amaethyddol – Llygredd Amaeth

Croesawodd Andrew Chambers y contractwyr amaethyddol i'r cyfarfod, i rannu eu persbectif o ran sut y gall y contractwr amaethyddol helpu i leihau llygredd amaeth. Mynegodd y Contractwyr y pwyntiau a ganlyn:

- Yr angen i fod yn fwy llym gyda ffermwyr a chontractwyr er mwyn dod â dulliau gwasgaru slyri amhriodol i ben
- Yr angen i weithio gyda ffermwyr a chontractwyr i nodi problemau ac atebion
- Gwneud ardaloedd dan waharddiad yn orfodol, a'u monitro trwy gyfrwng technoleg gwasgaru
- Dileu cyfnodau gwaharddedig, a gwneud y defnydd gorau o ap tywydd a'r dechnoleg a oedd ar gael i olrhain yr ardal wasgaru a swm y slyri (monitro llif), gan wneud argraffu'r wybodaeth honno yn orfodol, yn rhan o'r cynllun gwarant ffermydd/trawsgydymffurfio
- Rhoi trwydded/caniatâd i gontractwyr fferm wasgaru slyri, a phe na fyddai'r gwaith gwasgaru yn bodloni safonau'r polisi, eu cosbi trwy ddileu'r drwydded yn hytrach na rhoi dirwy ariannol, y credid ei bod yn aneffeithiol
- Annog y broses o brofi priddoedd a slyri – cosbi ffermwyr am orddefnyddio maethynnau
- Gwahardd dŵr ffo budr rhag mynd i mewn i storfeydd slyri
- Hyrwyddo cydymffurfedd
- Dylai datrysiadau gyd-fynd â datrysiadau o ran seilwaith ffermydd.

Diolchodd y Grŵp i'r Contractwyr, a nodi bod eu persbectif yn rhywbeth cadarnhaol i'w groesawu.

7) Y Contractwr Ystyriol –

Ymunodd Jill Hewitt â'r cyfarfod trwy Skype a rhoi cyflwyniad ar Gynllun Contractwyr Ystyriol Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol. Roedd y Cynllun, a oedd ar y pryd yn wirfoddol i gontractwyr amaethyddol, yn gynllun sicrwydd yn ei hanfod, ac iddo'r nod o brofi proffesiynoldeb contractwyr.

Nid oedd y modiwl generig a oedd yn ymwneud â gwasgaru maethynnau yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, a byddai angen ei ddiweddarau.

Amlygodd y drafodaeth yr angen am gymhelliant cryf neu orfodaeth er mwyn i'r cynllun gael ei roi ar waith yn eang, er enghraifft ei wneud yn gynllun gorfodol, neu'n hanfodol yn rhan o gynllun gwarant fferm. Nodwyd bod y cynllun yn orfodol ar gyfer contractwyr bwyd anifeiliaid a melino, a'i fod wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus.

Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol yn amcangyfrif bod 70% o slyri yn cael ei wasgaru gan gontractwyr.

Diolchodd y Grŵp i Jill am ei chyflwyniad defnyddiol, a oedd wedi ysgogi trafodaeth werthfawr.

Pwynt Gweithredu Hydref 04: Y cyflwyniad ar Gontractwyr Ystyriol i'w rannu â'r Grŵp.

8) Yr ymagwedd wirfoddol at Ddiweddariad ar Reoli Maethynnau

Rhoddodd Lorna Davies gyflwyniad i'r grŵp a oedd yn ymdrin â'r pwyntiau a ganlyn:

- Diweddariad drafft ar safon dŵr – roedd y prosiect i ddod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2019
- Cyllid – i ba gyfeiriad yr oedd y prosiect yn mynd nesaf – yr hyn a oedd i'w gyflawni o hyd
- Digwyddiad gweithredwyr ym mis Rhagfyr
- Diweddariad ar becynnau samplu Ansawdd Dŵr

Cadarnhaodd Lorna fod citiau samplu yn cael eu cyrchu trwy Fresh Water, prosiect gwyddoniaeth dinasyddion byd-eang. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar y pryd i brosiect dan arweiniad NFU Cymru a Phrifysgol Caerdydd, a fyddai'n cyflenwi citiau profi dŵr i'r ffermwyr hynny a fyddai'n cyflwyno data. Roedd y citiau a gyflenwid yn costio £25 fesul aelodaeth, gyda chanllawiau'n cael eu datblygu ar y pryd i ehangu'r cyngor i gyd-destun amaethyddol. Cadarnhaodd Lorna y gallai'r arweinydd ar gyfer y prosiect ddod o gwmpas ehangach nag aelodau NFU Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Byddai'r arweinydd yn gallu gweld yr holl ddata a gyflwynid, felly byddai'n ofynnol iddo fod yn ffynhonnell ddibynadwy i ffermwyr.

Roedd y gallu i ffermwyr a grwpiau ffermwyr fesur ansawdd dŵr mewn perthynas â'u gweithgarwch ffermio yn cael ei ystyried yn rhan fwyfwy allweddol o sicrhau newid sylweddol.

9) Trosolwg o Adroddiadau Gwasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio

Rhoddodd Keith Owen drosolwg o ddiben ac effeithiolrwydd ei ymweliadau i ffermydd, a oedd yn nodi rheolaethau addas ar gyfer rheoli slyri trwy ddatblygu'r seilwaith. Nododd y Grŵp lefel yr ymddiriedaeth rhwng Cyswllt Ffermio a ffermwyr, sydd wedi datblygu dros amser. Nododd Keith yr angen i gynlluniau rheoli maethynnau fod ar waith ar bob fferm a oedd yn hyrwyddo'r defnydd o slyri fel gwrtaith. Yn ogystal, pwysleisiodd yr angen am gynllun seilwaith fferm i newid y broses rheoli maethynnau a sicrhau bod grantiau'n cael eu targedu at yr atebion cywir.

Nododd Keith ei fod yn annog pob ffermwr i anfon yr adroddiad a lunid yn dilyn ei ymweliad mewn neges e-bost i CNC, a hynny er mwyn annog sgwrs agored rhwng y ffermwyr a'r rheoleiddiwr.

Nododd y Cadeirydd yr angen i ddychwelyd at y drafodaeth hon yn dilyn penderfyniad y Gweinidog.

10) Rhaglen Gyflawni Llygredd Amaethyddol Cyswllt Ffermio – diweddariad ar ddigwyddiadau diweddar

Darparodd Sara Jenkins y diweddariad canlynol:

Cofrestriadau ar gyfer y gwasanaeth cyngori – roedd ychydig dros 10,500 o fusnesau fferm wedi eu cofrestru bellach, gyda thua 4,630 o geisiadau wedi'u cymeradwyo ar gyfer y gwasanaeth. Roedd mwyafrwm y ceisiadau am y gwasanaeth cyngori yn rhai ar gyfer cyngor ar laswelltir mewn perthynas â maethynnau ac elfennau technegol.

Cyfeiriodd Sara Jenkins at yr wybodaeth a gylchredwyd trwy neges e-bost ar 22 Hydref ynglŷn â Chlinigau. Y ffocws yn y clinigau y flwyddyn honno oedd pridd, glaswelltiroedd a seilwaith, ac roeddent yn cynnwys opsiwn o gyngor un i un gydag ymgynghorydd glaswelltir yn dilyn prawf pridd. Roedd y clinigau hefyd yn atgoffa ffermwyr am argaeledd y gwasanaeth cyngori, a oedd yn cael ei ariannu 80% yn achos cyngor un i un, a 100% pe byddai tri neu ragor o ffermwyr yn gofyn am gyngor gyda'i gilydd, ar yr amod bod ganddynt gynllun busnes ar waith.

Roedd Digwyddiadau Pellach ar y gweill ar gyfer
4 Tachwedd, Ffostrasol
7 Tachwedd, Llanrwst
12 Tachwedd, Hafod a Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.

Roedd gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda Nichola Salter, CNC i ddatblygu astudiaethau achos a fyddai ar gael ar y wefan yn fuan.

Byddai Menter a Busnes yn bresennol yn Nigwyddiad Llaeth Cymru, Caerfyrddin ar 29 Hydref 2019.

Safleoedd Arddangos – roedd prosiectau'n cael eu cadarnhau ar y pryd, gyda digwyddiadau i ddechrau ar ffermydd yn ystod gwanwyn 2020. Cyfanswm y cyllid oedd £7,500 dros gyfnod o dair blynedd. Byddai ail brosiect wedi'i ariannu yn weithredol o flwyddyn 2 ymlaen, ac iddo gyfanswm o £2,500 ychwanegol nad oedd ar gyfer gwaith cyfalaf.

Hyfforddiant:

Roedd cyrsiau'r Cynllun Arolygu Safonau Agrochemegol Prydain (BASIS) a'r cyrsiau ar ddefnyddio a gwasgaru slyri mewn modd diogel yn cael eu hariannu 80%. Roedd yn ofynnol i unigolion cofrestredig wneud cais am y cyllid erbyn 5pm ddydd Gwener
1 Tachwedd

Roedd y rownd olaf o sioeau teithiol ar ffermio cynaliadwy wedi dod i ben.

Nododd y Grŵp y diweddariad a ddarparwyd.

11) Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp yn y dyfodol

- 13 Tachwedd 2019 (Swyddfa NFU Cymru, Llanfair-ym-Muallt)
- 16 Rhagfyr 2019 (Swyddfeydd LIC, Merthyr. Yn cael ei ddilyn gan ymweliad safle â Gwaith Trin Dŵr Llwynon)
- Dydd Llun 20 Ionawr 2020, Swyddfeydd LIC, Aberystwyth

Nododd y Grŵp y cyfarfodydd nesaf a oedd wedi'u cynllunio.

12) Diweddariad ar weithgarwch perthnasol yn y dyddiadur (Pawb)

Cadarnhaodd Creighton Harvey y gofynnwyd iddo ymuno â'r Fforwm Pysgodfeydd dan gadeiryddiaeth yr Aelod o Fwrdd CNC, Steve Ormerod. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Steve Ormerod wedi cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod Is-grŵp Amaeth. Cadarnhaodd Bob Vaughan y byddai hefyd yn mynychu'r Fforwm Pysgodfeydd nesaf.

13) Unrhyw Fater Arall (Pawb)

Cynllunio ar gyfer Brexit: trafododd y Grŵp faterion a oedd yn gysylltiedig â chynllunio ar gyfer Brexit dim bargaen, ac o ran sicrhau bod digon o rannau sbâr ar gael ar gyfer pypmiao dŵr/slyri. Nododd y Grŵp ei bod yn ofynnol i chwaraewyr allweddol bentyrro rhannau yn rhan allweddol o gynllunio ar gyfer cydnerthedd.

Disgwylid i'r ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau ddod i ben ar 22 Tachwedd. Byddai Marc Williams yn rhannu dolen We â'r grŵp, a oedd yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar yr opsiynau a oedd ar waith ar y pryd. Byddai cyflwyniad a oedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth yn cael ei rannu â'r grŵp hefyd.

Pwynt Gweithredu Hydref 04: Marc Williams i rannu rhagor o wybodaeth â'r grŵp ar yr ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau.

Gelli Aur – Prosiect Slyri. Cadarnhaodd Marc Williams ei fod wedi cyfarfod â John Owen o'r prosiect, a bod y prosiect yn amlygu gostyngiad o 99% mewn nitradau, ffosfforws a solidau crog trwy waith trin. Roedd taflenni ar gael.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.
